Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Mwy Nag Ailgylchu

Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42019 ISBN Digidol 978-1-80082-904-6

**Cynnwys**

| | |
|---|---|
| **Rhagair y Gweinidog** | **4** |
| **Sut byddwn yn symud tuag at economi fwy cylchol** | **6** |
| **Sylfaen ar gyfer Llwyddo yn y Dyfodol – Y cyd-destun** | **8** |
| **Cyfnod Heriol – Pandemig Covid-19; Brexit a Newid yn yr Hinsawdd** | **10** |
| **Sut rydym am gyrraedd y nod** | **13** |
| **Y Chwe Thema Graidd:** | |
| **1. Hybu arloesi wrth ddefnyddio deunyddiau** | **15** |
| **2. Uwchraddio mentrau atal ac ailddefnyddio** | **19** |
| **3. Adeiladu ar ein record ailgylchu** | **23** |
| **4. Buddsoddi mewn seilwaith** | **26** |
| **5. Galluogi cymunedau a busnesau i weithredu** | **29** |
| **6. Cysoni dulliau ysgogi'r Llywodraeth** | **33** |
| **Sut gallwch chi gymryd rhan** | **37** |
| **Mesur cynnydd** | **39** |

# Mwy Nag Ailgylchu

## Gweithredu economi gylchol yng Nghymru

## Economi Gylchol: Ein nod yw defnyddio adnoddau am gyn hired â phosibl ac osgoi gwastraff.

## Ein nodau

- Defnyddio adnoddau un blaned
- Bod yn ddiwastraff erbyn 2050
- Allyriadau sero net
- Manteisio i´r eithaf ar ein potensial economaidd
- Gwneud effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o ddiwylliant Cymru

## Themâu Craidd




## PRIF GAMAU GWEITHREDU

**1** Byddwn yn cefnogi busnesau yng Nghymru i leihau eu hôl-troed carbon drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

**2** Byddwn yn darparu'r adnoddau i alluogi'r gymuned i weithredu

**3** Byddwn yn rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio eitemau untro diangen, yn enwedig plastig.

**4** Byddwn yn dileu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi.

**5** Byddwn yn sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn prynu nwyddau a gwasanaethau sydd wedi eu hailweithgynhyrchu, eu hatgyweirio, eu gwneud o gynnwys wedi'i ailgylchu neu eu cynhyrchu o ddeunyddiau biolegol fel pren.

**6** Byddwn yn ymdrechu i gyflawni'r cyfraddau ailgylchu gorau yn y byd.

**7** Byddwn yn lleihau effaith casglu gwastraff o'n cartrefi a'n busnesau ar yr amgylchedd.

**8** Byddwn yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff.

**Rhagair y Gweinidog**

Mae'r cyfnod hwn yn un anodd iawn. Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith fawr ar sut rydym yn byw ein bywydau, mae Brexit wedi newid sut rydym yn masnachu â gwledydd cyfagos ac mae newid yn yr hinsawdd yn dod â'r tymheredd byd-eang uchaf erioed a digwyddiadau tywydd eithafol. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae yna, fodd bynnag, arwyddion pwysig o newid cadarnhaol. Mae'r pandemig wedi golygu bod cymunedau a busnesau ledled Cymru wedi dod at ei gilydd i weithredu i ofalu am eu hamgylchoedd ac am ei gilydd. Gwyddom ar y cyd y gallwn wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl o'n cwmpas ac i'n hamgylchedd ehangach.

Erbyn hyn, mae ein cyfradd ailgylchu genedlaethol wedi cyrraedd dros 65%, gan ragori ar ein targed diweddaraf a chadarnhau lle Cymru fel un o'r gwledydd sy'n ailgylchu fwyaf yn y byd. Mae ein targedau, ein buddsoddiad a'n gwaith partneriaeth i gyd wedi bod yn elfennau allweddol o'r llwyddiant hwn, ond mae cyflawni hyn wedi bod yn ganlyniad yn y pen draw i bobl yn ailgylchu gartref ym mhob rhan o Gymru ac mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr yn genedlaethol.

Nid yw'r ffordd rydym yn rheoli adnoddau erioed wedi bod yn bwysicach. Mae'r pandemig wedi dangos i ni nad oes modd cymryd yr hyn sydd ei angen arnom a'r hyn rydym yn ei ddefnyddio yn ganiataol. Wrth i ni geisio sicrhau adferiad cadarn ar ôl y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud yn siŵr ei fod yn adferiad gwyrdd a theg.

Er mwyn bod yn gwbl wyrdd, rhaid i ni gymryd camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, gan weithio tuag at Gymru sy'n defnyddio cyfran deg o adnoddau'r Ddaear. Yn ôl Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn ddiweddar, bydd y mesurau a gynigir yn y Strategaeth hon yn lleihau allyriadau. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni weithredu ar ddefnydd anghynaliadwy sy'n effeithio ar ein hinsawdd a'n bioamrywiaeth. Mae economi gylchol lle rydym yn gwerthfawrogi adnoddau drwy barhau i'w defnyddio yn elfen hanfodol o adferiad gwyrdd a theg oherwydd bydd yn gweithio i leihau ein defnydd ac atal gwastraff.

Mae'r broses o bontio i'r dull hwn eisoes wedi dechrau ac mae angen i ni ei chyflymu er mwyn gwella ein canlyniadau economaidd a chymdeithasol drwy wneud Cymru yn fwy cadarn. Mae cadwyni cyflenwi byrrach, a sylweddoli gwerth ein hadnoddau, yr un mor allweddol i'n hadferiad ar ôl y pandemig a lliniaru effeithiau negyddol Brexit ag y mae camau i ddatgarboneiddio a lleihau gwastraff.

Wrth gyhoeddi'r Strategaeth hon, rydym yn ymrwymo fel Llywodraeth i weithredu a defnyddio'n llawn y pwerau a'r cyfryngau sydd gennym i newid mor gyflym ag y gallwn i economi gylchol, carbon isel. Bydd hyn yn cynnwys meysydd fel mynd i'r afael â phlastig untro y rhoddwyd cryn bwyslais iddo yn yr ymateb i'n hymgynghoriadau. Ond gallai Deddf y Farchnad Fewnol a basiwyd yn ddiweddar amharu ar ein gallu i gymryd rhai o'r camau rydym eisoes wedi ymrwymo i'w cymryd gan fod ansicrwydd ynghylch ei heffaith ar gymwyseddau datganoledig Cymru. Dyna pam ein bod wedi dechrau ar gamau cyfreithiol i herio'r Ddeddf a gallu potensial Llywodraeth y DU i ffrwyno gallu Cymru i weithredu.

Yn ogystal â nodi'n huchelgais dros y degawd nesaf, ein hamcan wrth gyflwyno'r strategaeth hon yw prysuro gweithredu.  Dyna pam, ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth ar gyfer ymgynghori arni, y gwnaethom ymrwymo i weithredu o'r cychwyn cyntaf, gan gydnabod yr ymateb brys sydd ei angen i argyfwng yr hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth cysylltiedig.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi neilltuo dros £43 miliwn o gyllid drwy'r Gronfa Economi Gylchol, i fusnesau a chyrff a ariennir yn gyhoeddus fel Awdurdodau Lleol a phrifysgolion i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau arloesol. Mae hyn wedi amrywio o'r Remakerspace arloesol ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n gweithio gyda busnesau i wella dyluniad cynhyrchion i sied trwsio sy'n cefnogi'r gymuned leol yn Llangollen. Mae prosiectau fel y rhain yn rhoi tystiolaeth i ni ystyried cefnogaeth bellach ac ehangach. Mae mwy o fusnesau a mentrau'n cael eu sefydlu yng Nghymru i arloesi a thyfu'r economi gylchol, fel Frugalpac yng Ngogledd Cymru sy'n datblygu dewisiadau papur yn lle cynwysyddion diodydd plastig, Riversimple yn y Canolbarth sy'n dylunio car newydd sy'n cael ei bweru gan hydrogen gan ddefnyddio model busnes cylchol a Smile Plastics yn Ne Cymru sy'n datblygu arwynebau gwaith o blastigau anodd eu hailgylchu.

Mae cymryd y camau nesaf ar ein llwybr tuag at economi ddiwastraff a charbon isel yn bwysicach nag erioed; ond fel gwlad mae ein cynnydd hyd yma eisoes wedi dangos ein gallu i gyflawni.

**Lesley Griffiths AS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

**Mawrth 2021**

**Sut byddwn yn symud tuag at economi fwy cylchol**

Mae economi gylchol yn sicrhau bod adnoddau a deunyddiau'n cael eu defnyddio am gyn hired â phosibl ac yn osgoi pob gwastraff. Bydd hyn yn golygu symud oddi wrth 'economi linol' sy'n tybio cyflenwad cyson o adnoddau naturiol neu'r diwylliant cymryd-creu-defnyddio-taflu sy'n dibynnu ar godi adnoddau, cynhyrchu a defnyddio nwyddau a gwasanaethau, a thaflu gwastraff ar ôl eu defnyddio. Mae symud i economi gylchol yn allweddol i gyflawni canlyniadau amgylcheddol pwysig gan y gall leihau ein hallyriadau carbon yn sylweddol a'r graddau rydym yn blingo ein hadnoddau naturiol, a helpu i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Ond yn hollbwysig, gall hefyd wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol. Yn economaidd, drwy ddefnyddio dull cylchol sy'n lleihau cadwyni cyflenwi, gall wella effeithlonrwydd, creu swyddi a'n gwneud ynn fwy cystadleuol. O ran manteision cymdeithasol, bydd byrhau cadwyni cyflenwi a lleihau'n hallyriadau yn lleihau'r effeithiau ar iechyd a achosir gan lygredd ac yn helpu i ddosbarthu adnoddau'n decach. Bydd hynny hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i gymunedau ddod ynghyd i rannu adnoddau ac adfywio lle rydym yn byw.

Er mwyn cyflymu ein taith tuag at economi gylchol, byddwn yn blaenoriaethu wyth prif gam gweithredu uchelgeisiol:

1. **Byddwn yn cefnogi busnesau yng Nghymru i leihau eu hôl troed carbon drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.** Bydd hyn yn galluogi ein busnesau i fod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol, yn enwedig mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio, gan hefyd eu gwneud yn fwy cadarn.

2. **Byddwn yn darparu'r adnoddau i alluogi'r gymuned i weithredu.** Mae hyn yn golygu cefnogi gweithgarwch lleol sydd, gyda'i gilydd, yn gwneud gwahaniaeth mawr. Byddwn yn ymgysylltu â'n hysgolion a'n cymunedau gan weithio gyda dinasyddion i gefnogi mentrau lleol a chamau gweithredu sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

3. **Byddwn yn rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio eitemau untro diangen, yn enwedig plastig.** Fyddwn ni ddim yn anfon unrhyw blastig i safleoedd tirlenwi ac yn lleihau'r swm sy'n cael ei anfon i adfer ynni yn raddol. Byddwn yn cyflawni hyn gyda diwygiadau arloesol fel Cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig ar gyfer pecynnu, Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a thrwy osod gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar eitemau untro diangen.

4. **Byddwn yn dileu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi.** Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda busnesau ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, o'r fferm i'r fforc, i leihau gwastraff, gan ddefnyddio adnoddau mor effeithiol â phosibl a gweithio i gyfyngu ar wastraff bwyd ym mhob lleoliad.

5. **Byddwn, wrth gaffael, yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio nwyddau a chynnyrch sydd wedi'u gwneud o ddeunydd wedi'u hailweithgynhyrchu, eu hadnewyddu a'u hailgylchu neu sy'n dod o ddeunydd carbon isel a chynaliadwy fel pren.** Byddwn drwy hynny'n sbarduno newid enfawr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru fel ei bod yn dod yn norm i gaffael nwyddau a chynnyrch sy'n gynaliadwy a'n bod yn raddol roi'r gorau i brynu dewisiadau anghynaliadwy. Bydd hyn yn rhan bwysig o'n hymdrechion i sicrhau sector

cyhoeddus sero net yng Nghymru a defnyddio pŵer gwario'r sector cyhoeddus i sicrhau canlyniadau economaidd a chymdeithasol yn ogystal â rhai amgylcheddol gwell.

6. **Byddwn yn ymdrechu i gyflawni'r cyfraddau ailgylchu gorau yn y byd.** Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda llywodraeth leol, busnesau, mentrau cymdeithasol a chymunedau i gymryd y camau nesaf i ddod yn genedl ailgylchu wirioneddol ddatblygedig. Cam allweddol fydd trawsnewid y broses o ailgylchu gwastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel.

7. **Byddwn yn lleihau effaith casglu gwastraff o'n cartrefi a'n busnesau ar yr amgylchedd.** Byddwn yn cyflwyno cerbydau allyriadau isel iawn ac yn buddsoddi yn y seilwaith i'w pweru gydag ynni adnewyddadwy, gan leihau allyriadau a gwella ansawdd aer. Byddwn yn gwella'r modd y caiff deunyddiau eu casglu a'u prosesu, gan gynnwys drwy fabwysiadu technolegau clyfar a digidol.

8. **Byddwn yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff.** Byddwn yn lleihau faint o wastraff rydym yn ei gynhyrchu ac yn rheoli'n effeithiol yr hyn rydym yn ei greu drwy gael y seilwaith sydd ei angen arnom. Byddwn hefyd yn sicrhau nad ydym yn allforio gwastraff problemus i fannau eraill. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i'w helpu i fynd i'r afael â phroblemau gwastraff a lleihau effaith andwyol ein defnydd ar wledydd eraill yn ogystal â dysgu oddi wrth eraill.

## Sylfaen ar gyfer Llwyddo yn y Dyfodol – Ein cyd-destun

Mae llawer i ymfalchïo ynddo o ran yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma. Mae ein hymrwymiad i fod ar flaen y gad wrth fynd i'r afael â gwastraff dros y ddau ddegawd diwethaf wedi gweld Cymru'n mynd o ailgylchu llai na 5% o'n gwastraff trefol ar ddechrau datganoli i tua dwy ran o dair heddiw. Yn syml, rydym yn ailgylchwyr llwyddiannus iawn.

Rydym wedi creu sylfaen gref o ran gwastraff ac ailgylchu yng Nghymru – mae'n rhan greiddiol o'n diwylliant a dyma'r sylfaen sy'n darparu'r llwyfan ar gyfer cymryd y camau nesaf a symud tuag at economi fwy cylchol.

Mae'r Llywodraeth wedi chwarae rhan allweddol drwy bennu llwybr hirdymor clir, targedau statudol sylfaenol a darparu cyllid ar gyfer seilwaith gwell. Fodd bynnag, mae cyflawni llwyddiannus wedi bod o ganlyniad i ymdrech wirioneddol ar y cyd, gyda phawb yn chwarae eu rhan ac yn arbennig Awdurdodau Lleol, cymunedau a chartrefi ledled Cymru.

O ran ein gwasanaethau gwastraff, mae Cymru'n edrych yn lle gwahanol iawn heddiw nag yr oedd ugain mlynedd yn ôl. Caiff amrywiaeth o ddeunyddiau ailgylchu eu casglu ar ochr y ffordd, yn aml ac yn gyffredinol. Rydym nid yn unig yn casglu ac yn gwahanu'r deunyddiau, ond hefyd yn eu defnyddio fwyfwy i wneud y cynhyrchion newydd sydd eu hangen arnom. Nid 'tomenni' yn unig yw canolfannau ailgylchu mwyach ac maent yn datblygu ymhellach i fod yn eco-barciau modern lle mae busnesau a mentrau'n clystyru i adfer y deunyddiau, sicrhau gwerth ychwanegol a pharhau i ddefnyddio adnoddau.

Rydym wedi lleihau ein gwastraff bwyd gartref ac rydym yn un o'r ychydig wledydd yn y byd sy'n cynnal casgliadau gwastraff bwyd ar wahân bob wythnos i bawb, gan roi tanwydd i safleoedd treulio anaerobig sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy ledled y wlad. Rydym hefyd wrthi'n cyflwyno casgliadau newydd a gwell ar gyfer deunyddiau eraill sy'n anodd eu hailgylchu, fel clytiau a deunydd ffilm plastig. Mae'r datblygiadau arloesol hyn yn golygu bod Cymru ar flaen y gad o hyd o ran ailgylchu.

Mae cysondeb ein ffordd o wneud pethau ledled Cymru wedi arwain at lawer o fanteision. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yng Nghymru nawr yn casglu deunyddiau ar gyfer eu hailgylchu yn yr un ffordd, ar ôl mabwysiadu 'Glasbrint Casgliadau' arferion gorau Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi helpu i gynyddu'r buddsoddiad mewn ailbrosesu yng Nghymru ac yn golygu ein bod yn gallu gwrthsefyll effeithiau'r farchnad fyd-eang yn well oherwydd safon y deunyddiau a gesglir o gartrefi yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi hyn drwy fuddsoddi biliwn o bunnoedd, sydd wedi lleihau allyriadau carbon pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ôl Mynegai Carbon Ailgylchu Eunomia. Mae llawer o Awdurdodau Lleol hefyd wedi gweld arbedion ariannol sylweddol o ganlyniad i drefniadau casglu gwell a seilwaith ategol.


Mae ein cymunedau wedi bod yn hanfodol i'r dull llwyddiannus yma yng Nghymru, gyda mentrau cymdeithasol ledled y wlad, er enghraifft, yn hyrwyddo ailddefnyddio ac uwchgylchu, sy'n cefnogi byw'n gynaliadwy ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a datblygu sgiliau – sydd wedi'u targedu'n aml at y rheini sy'n ei chael hi'n

anodd cael gwaith. Mae'r pandemig wedi effeithio ar lawer o bobl yn ein cymunedau, yn enwedig y rheini sydd fwyaf agored i niwed. Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom gyhoeddi'r ddogfen Ail-greu ar ôl Covid-19: yr Heriau a'r Blaenoriaethau. Mae'r ddogfen hon yn nodi nifer o feysydd gweithredu a chyhoeddwyd £320 miliwn o gyllid i gefnogi ein pobl a'n hardaloedd. Rydym wedi helpu mentrau sydd nid yn unig wedi lleihau gwastraff, ond sydd wedi helpu'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Un enghraifft o hyn yw FareShare Cymru, sydd wedi ehangu eu gweithrediadau i ailddosbarthu bwyd dros ben i'r rheini sydd ei angen fwyaf ledled y wlad, ac rydym yn falch o allu eu cefnogi.

Ar hyn o bryd, Eco-Sgolion a Maint Cymru yw'r prif lwyfannau sydd gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ar ymddygiad cynaliadwy, newid yn yr hinsawdd a blaenoriaethau o ran adnoddau naturiol. Mae'r rhaglenni wedi datblygu cenhedlaeth eco-ymwybodol sydd nid yn unig yn canolbwyntio ar leihau ac ailgylchu gwastraff ond hefyd ar sut gall ysgolion a chymunedau gyfrannu at wella canlyniadau ehangach yn eu cymunedau a lleihau allyriadau ar yr un pryd. Mae llawer o ysgolion eisoes yn cymryd rhan yn y gwaith hwn drwy weithredu i leihau eu gwastraff, creu partneriaethau lleol gyda busnesau a sefydliadau eraill i wella eu cymunedau lleol a dod o hyd i ddefnyddiau eraill ar gyfer y deunyddiau.

Mae ein busnesau yn arloesi hefyd. Rydym yn ailgylchu 67% o'n gwastraff diwydiannol a masnachol ac 87% o'n gwastraff adeiladu a dymchwel. O'r model busnes cylchol a'r ceir arloesol sy'n cael eu pweru gan hydrogen yn Riversimple, i ddodrefn swyddfa sydd wedi'u gwneud o blastigau anodd eu hailgylchu yn Smile Plastics, a philen atal lleithder wedi'i gwneud o ddeunydd wedi'i ailgylchu yn Capital Valley Plastics, rydym yn wlad sy'n dod o hyd i ffyrdd newydd o arloesi ac yn parhau i ddefnyddio adnoddau am gyn hired â phosibl.

Mae'r ffigur isod yn dangos sut ydym yn tirlenwi llai ac yn defnyddio llai o ddeunyddiau ac yn ailgylchu mwy a mwy.



## Cyfnod Heriol – Pandemig Covid-19; Brexit a Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r pandemig wedi gweddnewid bywyd yn gyflym a bydd ei effaith arnom yn parhau i'r dyfodol rhagweladwy. Ar yr un pryd, rydym yn addasu i fywyd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, ac ni ddeellir effeithiau hyn yn llawn eto.

Yn y cyfamser, nid yw'r heriau amgylcheddol hirdymor a wynebwn wedi diflannu. Rydym yn dal i fod yng nghanol argyfwng hinsawdd: yn fyd-eang, rydym yn profi digwyddiadau hinsawdd na welwyd mo'u tebyg o'r blaen; mae disgwyl i'r tymheredd godi'n uwch na 2°C; mae un filiwn o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu oherwydd newid yn yr hinsawdd a gorfanteisio ar adnoddau naturiol; ac, mae tystiolaeth gynyddol o'r effeithiau andwyol y mae plastigau yn eu cael ar yr amgylchedd ac ar organebau byw. Yma yng Nghymru, rydym eisoes yn wynebu effaith hyn gyda llifogydd a thywydd eithafol arall yn dod yn fwyfwy cyffredin.

Mae'r heriau hyn yn cynnig cyfleoedd pwysig i siapio ein dyfodol mewn ffordd gadarnhaol. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i adferiad gwyrdd a theg ar ôl Covid-19. Mae'r Strategaeth hon yn rhan greiddiol o'n hymrwymiad i weithredu'n gyflym ar yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth byd-eang cysylltiedig, y caiff y naill a'r llall eu sbarduno gan ddefnydd anghynaliadwy. Mae'r economi gylchol yn cynnig ffordd all weithio i leihau defnydd. Mae mabwysiadu dull economi gylchol yn un o bileri allweddol adferiad gwyrdd a theg. Mae'n helpu nid yn unig i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, ond hefyd i fynd i'r afael â lefelau presennol o anghydraddoldeb, gan sicrhau canlyniadau economaidd gwell i Gymru. Drwy ailwerthuso'r hyn sydd ei angen arnom a sut rydym yn ei ddefnyddio, gallwn roi hwb i gystadleurwydd hirdymor Cymru mewn economi fyd-eang. Rydym felly yr un mor ymrwymedig, os nad yn fwy ymrwymedig, i ddatgarboneiddio, defnyddio adnoddau'n effeithiol ac i adfer natur ag yr oeddem cyn y pandemig. Mae hyn yn un o gonglfeini Cymru ffyniannus a chadarn, er lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae gennym eisoes sylfaen gref ar gyfer economi gylchol yma yng Nghymru. Roedd hyn yn amlwg o ymateb ein cymunedau i'r pandemig pan ddaethom ynghyd i gydweithio, gweithredu a rhannu adnoddau. Fe wnaethon ni ailgysylltu â'n hardaloedd lleol, gan gerdded a gwerthfawrogi ein mannau gwyrdd a'n byd natur wrth i nifer ohonom weithio gartref. Fe wnaethom siopa a defnyddio busnesau lleol a phrynu cynhyrchion lleol. Fe wnaethom fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau oedd gennym ni, gan rannu a chyfnewid yn lleol y pethau nad oedd eu hangen arnom mwyach. Fe wnaethom ddefnyddio ein cerbydau'n llai aml o lawer.

Beth yw ystyr 'dim gwastraff' neu fod yn 'ddiwastraff'?

Mae bod yn diwastraff yn golygu bod yr holl wastraff sy'n cael ei gynhyrchu'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu fel adnodd, heb fod angen unrhyw dirlenwi nac adfer ynni.

Mae gennym nod ers tro i fod yn ddiwastraff erbyn 2050 ac mae hyn yn mynd law yn llaw â'n nod o Gymru carbon sero net. Cyn cyrraedd 2050, mae gennym gerrig milltir pwysig, gyda chwarter yn llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu, dim gwastraff yn cael ei

anfon i safleoedd tirlenwi a gwastraff bwyd y gellir ei osgoi'n cael ei haneru erbyn 2025. O ystyried brys yr heriau sy'n ein hwynebu a'r angen i weithredu, mae'r Strategaeth hon wedi cael ei diweddaru ers yr ymgynghoriad er mwyn diffinio ein llwybr ymhellach:

Erbyn 2050, bydd Cymru'n wlad sy'n meddwl yn reddfol ac yn bwriadu defnyddio cyn lleied o adnoddau â phosibl, gan sicrhau bod yr adnoddau hynny'n cael eu defnyddio am gyn hired â phosibl ac yna'n dod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio'r adnoddau hyn ar ddiwedd eu hoes ddefnyddiol gyntaf. Bydd defnydd yn digwydd fwyfwy mewn cylchoedd biolegol, lle bydd bwyd a chynnyrch sy'n defnyddio deunyddiau biolegol, fel pren, yn cael eu dylunio a'u defnyddio i fwydo'n ôl i'r system a lle bydd cylchoedd technegol sy'n cynnwys deunyddiau wedi'u gweithgynhyrchu fel metel, gwydr a phlastig yn adfer cynhyrchion drwy ailddefnyddio, trwsio ac ailweithgynhyrchu.

Yn hollbwysig, mae ein gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn dal yn gadarn drwy gydol y pandemig, gyda'r rhan fwyaf o'r casgliadau'n parhau drwy gydol y pandemig. Roedd hyn yn hanfodol i helpu pobl i aros gartref, ond roedd parhau i ddarparu gwasanaethau ailgylchu, yn arbennig, yn cryfhau ein gwydnwch cyffredinol. Gyda llwyddiant Cymru o ran ailgylchu, mae'r deunyddiau a gesglir hefyd yn fwyfwy hanfodol i'n heconomi gan fod y deunyddiau hyn wedyn yn cael eu defnyddio i wneud y cynhyrchion newydd sydd eu hangen arnom.

Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu yn sgil y pandemig, y cynllunio ar gyfer Brexit a'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, er mwyn cymryd camau uchelgeisiol i gefnogi ein cadernid yn y dyfodol.

**Targedau allweddol:**

**Erbyn 2025**

- **Gostyngiad o 26% mewn gwastraff**
- **Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi**
- **Gostyngiad o 50% mewn gwastraff bwyd y gellir ei osgoi**
- **Ailgylchu 70%**

**Erbyn 2030**

- **Gostyngiad o 33% mewn gwastraff**
- **Gostyngiad o 60% mewn gwastraff bwyd y gellir ei osgoi**

**Erbyn 2050**


- **Defnyddio adnoddau un blaned**
- **Gostyngiad o 62% mewn gwastraff**
- **Dim gwastraff**
- **Carbon sero net**

(Sylwch: Pennir yr holl dargedau lleihau gwastraff yn erbyn llinell sylfaen 2006-07)

Mae’r diagram isod yn nodi ein dyheadau ar gyfer yr economi gylchol rydym am ei chyflawni.

Beth yw Economi fwy Cylchol?

Lleihau faint o ddeunyddiau crai a ddefnyddir.





Nid yw’r ffordd rydym yn defnyddio deunyddiau ar hyn o bryd yn gynaliadwy ac mae’n achosi’r argyfwng amgylcheddol byd-eang. Pe bai pawb yn y byd yn defnyddio’r un faint â dinasyddion cyffredin Cymru, byddai’n rhaid i 2.5 o blanedau gynhyrchu adnoddau byd-eang. Bydd symud i economi fwy cylchol yn annog trwsio, ailddefnyddio ac ailgylchu ac mae angen lleihau faint o ddeunyddiau crai rydym yn eu defnyddio fel bod twf economaidd yn digwydd yn sgil bod yn fwy darbodus. Bydd hyn yn cyfrannu’n sylweddol at sicrhau mai dim ond ein ‘cyfran deg’ o adnoddau byd-eang y mae Cymru yn eu defnyddio.


## Sut rydym am gyrraedd y nod

Mae’r Strategaeth hon yn nodi’r camau y byddwn yn eu cymryd dros y deng mlynedd nesaf ar ein llwybr tuag at economi gylchol.

Mae’r llinell amser isod yn dangos y camau rydym am eu cymryd wrth gyrchu at dargedau 2050. Bydd angen ymgynghori ar rai ohonynt, a bydd rhai pethau’n gorfod cael eu gwneud ar y cyd â llywodraethau eraill.




Mae’r Strategaeth yn seiliedig ar y chwe thema graidd a’r wyth prif gam gweithredu canlynol i gymryd y camau nesaf tuag at gyflawni ein nodau. Fe’u datblygwyd o’r dystiolaeth a gasglwyd gennym yr hyn a ddysgwyd o’r strategaeth flaenorol, yr adborth gwerthfawr a gawsom o’n hymgyngoriadau helaeth, a’r dadansoddiad a’r dystiolaeth sy’n sail i’n gwaith.



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod wrth wraidd y gwaith o ddatblygu'r ddogfen hon. Rydym wedi llunio strategaeth sy'n ceisio gwneud y mwyaf o'n cyfraniadau at y nodau ac rydym wedi paratoi asesiad ar wahân yn nodi hyn, ac sydd wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth.

Datblygwyd y Strategaeth hon yn dilyn y Pum Ffordd o Weithio. Mae'n gynllun hirdymor sy'n gosod llwybr tuag at 2050. Mae'n cynnwys camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i wella canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth a thrwy ymgysylltu ystyrlon a chydweithio gwirioneddol a bydd hyn yn parhau drwy gydol y broses o'i rhoi ar waith. Yn ystod y cyfnod ymgynghori swyddogol, cynhaliwyd dros 40 o ddigwyddiadau ledled Cymru; a llawer o sesiynau mewn cymunedau ac ysgolion. Yn ogystal â gofyn i'r rhai oedd yn bresennol beth oedd eu barn am yr ymgynghoriad, gofynnwyd hefyd iddynt am eu syniadau o ran sut gellid sicrhau Cymru ddiwastraff, carbon sero net, gydag economi fwy cylchol.

Cynllun integredig yw hwn. Mae'r themâu a'r camau gweithredu yn cefnogi cyflawni ymrwymiadau o dan *Ffyniant i Bawb: ein strategaeth genedlaethol.* Yn enwedig, *"ar gyfer economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, gan adeiladu ar ein llwyddiant o ran ailgylchu a lleihau'r effeithiau y mae cynhyrchiant a defnyddio adnoddau yn eu cael ar yr amgylchedd".* Mae hefyd yn allweddol i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae wedi'i integreiddio â'n strategaethau a'n cynlluniau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Cyflawni Carbon Isel, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Genhadaeth Ailadeiladu a Chadernid Economaidd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Fe'i lluniwyd i gyflawni yn erbyn meysydd allweddol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac yn benodol y blaenoriaethau a nodir yn ein Polisi Adnoddau Naturiol statudol. Mae'r economi gylchol hefyd yn elfen bwysig o'r strategaeth *Ail-greu ar ôl Covid-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau*, sy'n gwneud cyfraniad mawr at adferiad gwyrdd.

## Hybu arloesi wrth ddefnyddio deunyddiau

Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio deunyddiau ar gyfradd uwch o lawer na'r hyn sy'n gynaliadwy, sy'n cael effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd negyddol.

Drwy edrych ar yr angen hirdymor am ddeunyddiau allweddol yng Nghymru, lleihau ôl troed carbon cadwyni cyflenwi a phrynu cynhyrchion carbon is, byddwn yn gweithredu ar sail cylch oes gyfan ac yn cymell cwmnïau i ddylunio cynhyrchion yn well er mwyn gallu defnyddio deunyddiau am gyn hired â phosibl.

Hefyd, byddwn yn hyrwyddo arloesi mewn systemau busnes. Mae ein Cronfa Economi Gylchol eisoes yn gwneud hyn gan hyrwyddo modelau busnes sy'n osgoi gwastraff ac yn gwerthfawrogi adnoddau fel prydlesu nwyddau yn hytrach na'u gwerthu a gweld gwerth mewn deunydd sy'n cael ei ystyried yn wastraff. Dangoswyd bod mabwysiadu dull mwy cylchol yn lleihau effaith amgylcheddol sectorau allweddol, ac yn cymell cwmnïau i roi blaenoriaeth i wneud cynhyrchion sy'n para.

Mae arloesi'n allweddol er mwyn defnyddio adnoddau'n well a byddwn yn ceisio cefnogi atebion digidol, a defnyddio data'n well fel cyfleoedd i fusnesau Cymru ddod yn fwy cadarn, byrhau cadwyni cyflenwi a chystadlu mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio.

**Beth yw ystyr cynhyrchion carbon isel?**

Carbon creiddiol yw ôl troed carbon deunydd. Yr ôl-troed carbon yw swm yr holl allyriadau sy'n cyfateb i garbon deuocsid sy'n gysylltiedig â'r ynni a ddefnyddir i brosesu'r deunyddiau crai ac yna weithgynhyrchu a chludo'r cynnyrch. Mae defnyddio cynhyrchion carbon isel yn lleihau'r straen ar ein hadnoddau naturiol, a gall arbed arian o gymharu ag adnoddau cyfatebol prif ffrwd. Mae cynhyrchion carbon creiddiol isel yn cynnwys pren o Gymru neu gynhyrchion bwyd tymhorol sy'n dod o ffynonellau lleol.

### *Y sefyllfa ar hyn o bryd:*

Mae cynhyrchu cynhyrchion bob dydd – gan gynnwys ceir, dillad a bwyd – yn cyfrif am 45% o allyriadau carbon y byd[1]. Yn ogystal, rydym yn defnyddio mwy o lawer na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear ac mae hyn wrth wraidd yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth a wynebwn.

Mae llawer o'n heconomi yn dibynnu ar yr hyn a elwir yn 'ddeunyddiau crai critigol' fel lithiwm a thantalwm sydd i'w cael mewn ffonau symudol. Mae llawer o'r deunyddiau hyn yn brin, a gallant fod yn 'risg uchel' gan achosi niwed cymdeithasol ac

[1] Ellen MacArthur Foundation (2019) Completing the Picture: How the circular economy tackles climate change; https://www.ellenmacarthurfoundation.org/assets/downloads/Completing_The_Picture_How_The_Circular_Economy-_Tackles_Climate_Change_V3_26_September.pdf

amgylcheddol sylweddol pan gânt eu cloddio a'u prosesu. Rydym am sicrhau ein bod yn dal ac yn cadw gwerth y cynnyrch sydd gennym yn barod ac yn dod o hyd i ddewisiadau eraill yn hytrach na dibynnu mwy ar y deunyddiau crai hyn.

**Beth yw ystyr deunyddiau crai critigol?**

Deunyddiau crai critigol yw'r deunyddiau crai hynny sy'n bwysig yn economaidd ac yn strategol i'n heconomi ond sydd â risg uchel yn gysylltiedig â'u cyflenwi. Gellir dod o hyd iddynt mewn llawer o gynhyrchion o ffonau clyfar, i dechnoleg ynni adnewyddadwy a thechnoleg iechyd. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar geisio defnyddio'r deunyddiau hyn am gyn hired â phosibl drwy ailddefnyddio ac ailgylchu.

Mae effaith amgylcheddol a chymdeithasol lawn y cynhyrchion rydym yn eu defnyddio wedi'u cuddio oddi wrthym i raddau helaeth, yn aml oherwydd bod y deunyddiau crai ynddynt yn cael eu hechdynnu mewn rhannau eraill o'r byd. Fodd bynnag, mae echdynnu'r adnoddau hynny yn arwain at effeithiau difrifol, fel datgoedwigo a dinistrio cynefinoedd pwysig. Hefyd, mae faint o ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig a ddefnyddir i echdynnu, prosesu a chludo'r deunyddiau hyn yn cyfrannu at yr argyfwng hinsawdd.

Mae tystiolaeth yn dangos bod sbwriel yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, yn enwedig ar ein moroedd. Rydym wedi bod yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU i gymryd camau i gefnogi bioamrywiaeth a mynd i'r afael â'r problemau a achosir gan lygredd plastig a sbwriel môr, gan gynnwys cyflwyno gwaharddiadau ar eitemau plastig untro.

Fe wnaethom gyflwyno deddfwriaeth yn 2018 a oedd yn gwahardd gweithgynhyrchu, gwerthu neu gynnig cyflenwi unrhyw gynhyrchion gofal personol neu gosmetig 'golchi i ffwrdd' sy'n cynnwys microbelenni plastig. Rydym hefyd yn edrych ar gyfyngiadau ar gynhyrchion wedi'u gwneud o blastigau ocso-ddiraddadwy, sy'n cynnwys ychwanegion sy'n cyflymu'r broses o'u dadelfennu'n ficro-blastigau. Rydym wedi ymrwymo i gymryd camau pellach o fewn ein cymhwysedd i leihau effeithiau amgylcheddol plastig untro diangen i'n helpu i wireddu'n huchelgais o Gymru ddiwastraff a heb sbwriela anghyfreithlon. Felly, rydym wedi bod yn casglu tystiolaeth am effeithiau posibl cyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar nifer o eitemau untro ac yn ystyried sut gallwn ddefnyddio'r rhain i annog pobl i newid i ddewisiadau eraill mae modd eu hailddefnyddio.

## *Ein bwriad:*

Er mwyn cyflawni ein nodau, bydd angen newid faint o ddeunyddiau rydym yn eu defnyddio a'r math o ddeunydd rydym yn ei ddefnyddio. Mae angen i ni ddefnyddio llai o ddeunyddiau mewn cynhyrchion drwy gymhwyso syniadaeth ddarbodus, creu pethau llai, pennu mwy nag un swyddogaeth, a defnyddio modelau busnes economi gylchol fel llogi, benthyca a phrydlesu. Mae angen inni hefyd feddwl yn ofalus am y deunyddiau mae ein nwyddau'n cael eu gwneud ohonynt ac o ble maen nhw'n dod.

Bydd hyn yn golygu dod o hyd i ddeunyddiau mwy cynaliadwy, lleol a charbon isel fel pren, a'r rheini sydd â llawer o gynnwys wedi'i ailgylchu, gan symud oddi wrth y deunyddiau hynny sydd â'r ôl-troed carbon uchaf.

Rydym am sicrhau bod cemegion peryglus yn cael eu lleihau yn y cynhyrchion sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru, a bod unrhyw wastraff sy'n cynnwys cemegion peryglus yn cael ei reoli'n briodol. Mae rheoli gwastraff plastig o offer trydanol a chynhyrchion eraill fel carpedi, sydd â llygryddion organig parhaus, yn gryn her.

Rydym hefyd yn awyddus i gynyddu faint o gynnwys wedi'i ailgylchu a'i ailweithgynhyrchu a ddefnyddir ac annog pobl i drwsio ac ailddefnyddio'r cynhyrchion rydym yn eu defnyddio ac sydd eu hangen arnom yn amlach. Bydd hyn yn adeiladu ar y camau rydym eisoes yn eu cymryd drwy ein Cronfa Economi Gylchol sy'n darparu cymorth i fusnesau gynyddu'r cynnwys wedi'i ailgylchu yn eu cynhyrchion. Bydd yn gweithredu ar argymhelliad Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU sef defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol yn y diwydiant. Byddwn hefyd yn atal plastig rhag dod yn sbwriel neu rhag cael ei anfon i safle tirlenwi drwy gyfyngu ar ei ddefnydd diangen a chefnogi arloesi mewn meysydd fel bioblastigau, lle mae hyn yn ateb amgylcheddol cadarnhaol. Er ein bod yn cydnabod bod rhai defnyddiau o blastig untro yn hanfodol – fel y rhai mewn lleoliadau meddygol – rydym am weld mwy yn cael eu cynhyrchu allan o gynnwys wedi'i ailgylchu a Chymru heb eitemau untro diangen.

### *Beth sydd angen i ni ei wneud?*

Yn ogystal â'n prif gamau gweithredu, byddwn hefyd yn:

- Blaenoriaethu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy a charbon isel wrth adeiladu yng Nghymru i gefnogi'r cynnydd tuag at garbon sero net oes gyfan ar gyfer prosiectau adeiladu. Byddwn yn gwneud hyn yn gyntaf yng ngwaith adeiladu'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y Rhaglen Tai Arloesol a'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, adnewyddu'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru, ac adeiladu ysgolion newydd. Byddwn hefyd yn edrych ar gyflwyno safonau technegol ar gyfer ôl troed carbon.

- Adeiladu ar brofiad yr economi sylfaenol gan ganolbwyntio ar gaffael lleol a rhanbarthol, yn gofyn i bob corff sector cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru ddilyn hierarchaeth caffael deunyddiau cynaliadwy, gan gynnwys sicrhau lefel ofynnol o gynnwys wedi'i ailgylchu yn ôl gwerth ac adrodd ar lefel y cynnwys wedi'i ailgylchu yn yr adeiladau maen nhw'n eu caffael.

- Mabwysiadu dull gweithredu oes gyfan ar gyfer costau ariannol, costau carbon a chostau amgylcheddol cyffredinol ym maes caffael yn y sector cyhoeddus. Byddwn yn ceisio lleihau ôl troed carbon defnyddiau a defnydd gwasanaethau craidd fel iechyd a gofal cymdeithasol, ac addysg. Bydd hynny'n cynnwys Cynllun Cyflawni Strategol GIG Cymru ar Ddatgarboneiddio a fydd yn gosod targedau clir ar gyfer lleihau allyriadau, lleihau gwastraff ac ailgylchu mwy.

- Cefnogi busnesau i ddod o hyd i ddefnyddiau a marchnadoedd o safon ar gyfer deunyddiau eilaidd sy'n deillio o wastraff a darparu buddsoddiad ar gyfer hyn drwy ein Cronfa Economi Gylchol. Bydd hyn yn cynnwys defnyddiau arloesol ar gyfer

gwastraff o weithgynhyrchu bwyd a'r diwydiant coedwigaeth – a elwir yn 'bennu gwerth' (*valorisation*) neu 'bioburo' (*bio-refining*) i gael gwerth o'r gwastraff hwn fel rhan o fio-economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

- Comisiynu dadansoddiad i ddeall yn well yr angen hirdymor am ddeunyddiau allweddol yng Nghymru. Byddwn yn ymchwilio i sut mae datgarboneiddio'r deunyddiau hyn a defnyddio'r wybodaeth hon i lunio mapiau llwybr ar gyfer adnoddau allweddol, gan ddechrau gyda phlastig, ffeibr a phren.

- Cyfyngu ar werthu'r eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu i'r sbwriel fwyaf cyn i ni ddileu eitemau untro diangen yn gyfan gwbl.

- Annog pobl i ddefnyddio mwy o fioblastig o ffynonellau adnewyddadwy lle mae angen defnyddio plastig o hyd, a lle tybir mai hwn yw'r opsiwn amgylcheddol cyffredinol gorau. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i ddinasyddion a rhanddeiliaid am effeithiau mathau newydd o becynnu fel plastig y gellir ei gompostio.

- Cefnogi arloesi wrth ddatblygu deunyddiau newydd, amgen gydag ôl troed amgylcheddol is a chynhyrchion sy'n defnyddio llai o ddeunyddiau, a newid i ddulliau carbon is ar gyfer y deunyddiau rydym yn eu defnyddio. Byddwn yn ymdrechu i roi'r gorau i ddefnyddio ychwanegion cemegol sy'n gallu achosi niwed neu atal ailgylchu ar ddiwedd oes, gan gynnwys drwy well labeli.

- Buddsoddi mewn sgiliau gwyrdd fel eco-ddylunio, ailddefnyddio, trwsio, ailweithgynhyrchu ac ailbrosesu i gefnogi datblygiad gweithlu Cymru. Byddwn yn gweithio gyda chyrff proffesiynol perthnasol i sicrhau eu bod yn achredu hyfforddiant a chymwysterau sy'n gysylltiedig ag economi gylchol a gynigir gan ddarparwyr hyfforddiant yng Nghymru, yn enwedig ein prifysgolion a'n colegau. Byddwn yn ceisio rhoi sylw i unrhyw fylchau mewn hyfforddiant economi gylchol, datblygu sgiliau a chymwysterau. Mae cyfateb prentisiaethau i anghenion economi Cymru yn ganolog i'n polisi sgiliau, a byddwn yn parhau i edrych ar rôl prentisiaethau wrth gau unrhyw un o'r bylchau hynny. Wrth wneud, rydym yn cydnabod bod diogelwch yn ystyriaeth allweddol, yn enwedig o ran ailddefnyddio a thrwsio cyfarpar electronig.

- Ysgogi tarfu digidol yn y sector drwy ymchwilio i atebion technolegol 'clyfar' a digidol i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithiol. Er enghraifft, rydym yn edrych ar ateb digidol i sut gall cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes weithio gyda'n trefniadau llwyddiannus presennol ar gyfer casglu o gartrefi.

- Adeiladu ar yr arloesi presennol yng Nghymru drwy lansio cystadleuaeth genedlaethol am arloesi i fynd i'r afael â her deunyddiau anodd eu hailgylchu.

## Uwchraddio mentrau atal ac ailddefnyddio

Er mwyn symud tuag at economi gylchol, carbon isel, bydd angen i ni leihau faint o wastraff a gynhyrchir gan gartrefi, busnesau a'r sector cyhoeddus. Rydym yn pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer darparu economi gylchol a bydd 'atal' yn rhan ganolog ohoni. Ein nod yw adeiladu ar y newid diwylliannol sydd eisoes wedi digwydd yng Nghymru fel bod gwastraff diangen yn cael ei atal, cynhyrchion yn cael eu hailddefnyddio a bod trwsio ac ailweithgynhyrchu yn rhan greiddiol o'n cymdeithas.

### *Y sefyllfa ar hyn o bryd:*

Mae Cymru eisoes yn wlad lle mae ailddefnyddio deunyddiau ac atal gwastraff yn gyffredin. Mae'n rhywle lle mae pobl yn defnyddio apiau i atal bwyd dros ben rhag mynd i wastraff, cyfnewid a gwerthu dillad a lle mae siopau ailddefnyddio ac ail-lenwi yn dod yn fwyfwy cyffredin. Rydym eisoes yn gweithio i haneru gwastraff bwyd y gellir ei osgoi erbyn 2025, gan fynd yn fwy cyflym a rhagori ar yr argymhellion diweddar ym Mhwyllgor Newid Hinsawdd y DU ar y *Llwybr i Gymru Sero Net*. Mae gennym rwydwaith cynyddol o fannau ail-lenwi dŵr yfed ledled Cymru – gan leihau'r defnydd untro o boteli plastig. Mae gennym gymuned o Gaffis Trwsio sy'n tyfu'n gyflym, sy'n lleihau gwastraff, yn dod â chymunedau at ei gilydd ac yn cefnogi datblygu sgiliau.

Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i godi tâl am fagiau siopa untro ac o ganlyniad cofnodwyd gostyngiad o 71% yn eu defnydd rhwng 2011 a 2014.

Mae busnesau hefyd yn ymwneud mwy â lleihau ac atal gwastraff. Gwelwyd gostyngiad o 22% yn y gwastraff a gynhyrchwyd gan sectorau diwydiannol a masnachol Cymru yn 2018 (800,000 tunnell) o'i gymharu â'r arolwg blaenorol yn 2012. Rydym yn rhoi cymorth i fusnesau atal eu gwastraff drwy raglenni penodol fel 'Adduned Twf Gwyrdd' Busnes Cymru, Bwyd a Diod Cymru a Cyswllt Ffermio. Mae hynny'n ategu'r adnoddau a'r wybodaeth a ddarperir gan WRAP Cymru a Chanolfannau Arloesedd Bwyd Cymru.

Mae llawer o'n Hawdurdodau Lleol bellach yn darparu siopau ailddefnyddio yn eu canolfannau ailgylchu gwastraff cartref. Er gwaethaf y cynnydd rydym wedi'i wneud, canfu ein dadansoddiad diweddaraf y gallai 180,000 tunnell o wastraff trefol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol gael ei ailddefnyddio[2]. O hyn, dim ond 10,000 tunnell a baratowyd ar gyfer ei ailddefnyddio mewn gwirionedd – felly mae gennym dipyn i'w wneud o hyd, ond mae'r cyfleoedd yno.

### *Ein bwriad:*

Rydym am fod yn genedl lle mae cymunedau a busnesau'n gweld gwerth mewn adnoddau ac yn osgoi gwastraff. Mae angen gwneud mwy hefyd i leihau gwastraff yn y lle cyntaf ac rydym am gefnogi'r llu o gynlluniau atal gwastraff ledled Cymru i ddod ynghyd, rhannu arferion a chlywed ganddynt am y cymorth sydd ei angen arnynt.

[2]WRAP Cymru, 2018, Caerdydd, Paratoi ar gyfer ailddefnyddio: mapio'r llwybr tuag at newid sylfaenol yng Nghymru, paratowyd gan Resource Futures, https://www.wrapcymru.org.uk/sites/files/wrap/CCP104-014%20-%20PfR%20Roadmap%20-%20final%20-%20Welsh%20-%20July%202018.pdf?_ga=2.264558415.1798654704.1612780139-168440454.1612780139

Rydym am ddatblygu diwylliant cyffredinol o ailddefnyddio, trwsio ac ailweithgynhyrchu yn ein cymunedau a chanol trefi. Nid er mwyn atal gwastraff yn unig y mae hyn, ond er mwyn gwireddu'r manteision economaidd a'r manteision cymdeithasol posibl. Rydym am helpu enghreifftiau o arferion da sydd eisoes yn bodoli ledled Cymru i ddod yn norm.

**ASTUDIAETH ACHOS: Yr Economi Rhannu; Caffis Trwsio, Benthyg, Nappy Collective.**

Mae Benthyg yn brosiect yng Nghaerdydd lle gallwch fenthyg yr hyn sydd ei angen arnoch, rhoi'r hyn nad ydych ei angen mwyach, a chwrdd i rannu gwybodaeth a sgiliau. Ar ôl sicrhau £50,000 o Gyllid Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn 2019, gallant nawr gynnig dros 350 o eitemau am ffi fach; o eitemau gwisg ffansi, i offer tocio gwrych a fframiau cerdded. Darperir yr eitemau hyn am bris bach, sy'n caniatáu i gymunedau agored i niwed gael gafael ar offer a deunyddiau a allai fel arall fod y tu hwnt i'w modd, gan leihau'r angen am eitemau sy'n drwm ar garbon nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml.

Ym mhen arall y wlad, mae Nappy Collective Gogledd Cymru, gyda chanolfannau yn Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint, yn lleihau gwastraff drwy ddarparu arddangosiadau, sesiynau holi ac ateb, cyngor a threialon ac maen nhw'n rhoi benthyg pecynnau o glytiau ar sail hirdymor i bobl sy'n profi caledi ariannol. Ers 2015, maent yn amcangyfrif eu bod wedi atal dros 3 miliwn o gewynnau a 26 miliwn o gynhyrchion glanweithdra untro rhag mynd i safleoedd tirlenwi, gan fynd i'r afael â thlodi mislif drwy eu prosiect Given To Shine.

Sefydlwyd Caffis Trwsio Cymru, sy'n rhan o fudiad sy'n cynnwys mwy na 1,800 o gaffis ledled y byd, yn 2017 i fynd i'r afael â'r eitemau gwastraff anghynaliadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi y gellid ymestyn eu hoes drwy eu trwsio. Mae gan y Caffis Trwsio dri phrif werth: lleihau gwastraff, rhannu sgiliau a chydlyniant cymunedol. Fe'u hariennir drwy gynllun grant Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi gwerth £50,000. Erbyn hyn, mae tua 30 o gaffis ledled Cymru lle mae pob math o eitemau'n cael eu trwsio, gan atal gwastraff rhag cael ei dirlenwi, arbed arian, a lleihau ôl troed carbon deunyddiau.

Mae'r tri yn cynrychioli mudiad ehangach ledled Cymru sy'n canolbwyntio ar ddod â chymunedau at ei gilydd i leihau defnydd, costau ac allyriadau gyda'i gilydd, drwy rannu sgiliau, ac eitemau hanfodol er budd yr amgylchedd a'r gymuned.

*Beth sydd angen i ni ei wneud?*

Yn ogystal â'n prif gamau gweithredu, byddwn hefyd yn:

- Sicrhau bod pob busnes yng Nghymru yn gallu cael cyngor ar sut i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon drwy, er enghraifft, leihau eu gwastraff neu wella dyluniad eu cynnyrch a'u deunydd pecynnu cysylltiedig drwy gymorth a ddarperir gan Busnes Cymru, Bwyd a Diod Cymru a Cyswllt Ffermio ac sydd ar gael gan WRAP Cymru a'r Canolfannau Arloesedd Bwyd.

- Gweithio gyda gwledydd eraill y DU i wella'r ddeddfwriaeth ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) a sicrhau bod yr hawl i'w drwsio, gan annog gwydnwch a chynyddu mynediad at rannau modiwlar mewn cynhyrchion, yn cael ei hyrwyddo.

- Rhoi cyngor i ddinasyddion ar yr hyn y gallant ei wneud i leihau gwastraff yn eu cartrefi, gan gynnwys lleihau gwastraff bwyd, compostio gartref, defnyddio clytiau a chynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio, defnyddio cynhyrchion y gellir eu hail-lenwi a throsglwyddo eitemau nad oes mo'u hangen arnoch ar gyfer ail oes.

- Datblygu targed gofynnol newydd ar gyfer paratoi i ailddefnyddio er mwyn i Awdurdodau Lleol allu dilyn y targed o 1% (ac eithrio WEEE) a bennwyd ar gyfer 2024-25 yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff, gan ddarparu llwybr cliriach at fod yn ddiwastraff erbyn 2050.

- Hyrwyddo rhannu, atal gwastraff ac ailddefnyddio a chefnogi'r sectorau ailddefnyddio, trwsio ac ailweithgynhyrchu i dyfu yn ein cymunedau a chanol trefi gan ddysgu oddi wrth ein Cronfa Economi Gylchol gwerth £13.2 miliwn ar gyfer trwsio ac ailddefnyddio.

- Treialu llwyfan ailddefnyddio a fydd yn caniatáu i'r rheini mewn marchnadoedd ailddefnyddio gysylltu â'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddarparu nwyddau sydd wedi'u hadnewyddu, eu hailgylchu a'u hailweithgynhyrchu yn hytrach na phrynu cynhyrchion newydd. Byddwn yn cefnogi datblygiad cynlluniau rhannu ac ailddefnyddio cymunedol.

- Haneru gwastraff bwyd y gellir ei osgoi erbyn 2025 ac yn ei leihau 60% erbyn 2033. Byddwn yn nodi cynllun i gyflawni hyn sy'n ymgysylltu â manwerthwyr i sicrhau eu bod yn annog eu cwsmeriaid i leihau eu gwastraff bwyd, gan ystyried a oes angen 'Rhwymedigaethau Gwybodaeth Defnyddwyr' gorfodol ychwanegol ar gyfer lleihau gwastraff bwyd.

- Creu gweithgor gyda chynrychiolwyr cadwyn gyflenwi'r sector bwyd yng Nghymru er mwyn rhannu arferion gorau a nodi cyfleoedd ar y cyd i gyrraedd y targed lleihau gwastraff bwyd. Bydd hefyd yn edrych ar ffyrdd o leihau deunydd pecynnu diangen a sicrhau system fwyd fwy cadarn.

- Ymgynghori ar b'un a oes angen gofyniad i fusnesau adrodd meintiau gwastraff bwyd, ac a ddylid cyflwyno gofyniad i fanwerthwyr mawr ailddosbarthu bwyd bwytadwy sydd dros ben.

- Rhoi cymorth ymarferol i fusnesau ar leihau gwastraff bwyd a deunydd pecynnu a manteisio ar y cyfleoedd economaidd y mae hyn yn eu cynnig drwy Busnes Cymru, Bwyd a Diod Cymru a Cyswllt Ffermio, WRAP Cymru a Chanolfannau Arloesedd Bwyd.

- Cynyddu faint o offer dros ben y mae'r sector cyhoeddus yn ei roi, gan gynnwys i wledydd eraill nad ydynt yn gallu cael gafael ar offer o'r fath yn rhwydd ac a allai elwa o'i ddefnyddio.

- Cynhyrchu llai o wastraff yn ystod y gwaith adeiladu, adnewyddu ac ar ddiwedd oes adeiladau'r sector cyhoeddus.

- Buddsoddi yn yr hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen i ailddefnyddio, trwsio ac ailweithgynhyrchu drwy sefydlu cyrsiau a diplomâu (ee prentisiaethau gwyrdd).

## Adeiladu ar ein record ailgylchu

Ein nod yw adeiladu ar ein llwyddiant hyd yma drwy barhau i sbarduno gwelliannau mewn ailgylchu ar gyfer gwastraff cartrefi, masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel a gwneud Cymru yn arweinydd byd-eang.

### *Y sefyllfa ar hyn o bryd:*

Rydym wedi cynyddu cyfradd ailgylchu gwastraff trefol Cymru o 4.8% (1998-99) i 65.14% (2018-19)[3] gan ragori ar y targed statudol o 64%. Yn ôl Eunomia, Cymru oedd y wlad â'r gyfradd ailgylchu uchaf yn y byd[4] ar ôl yr Almaen a Thaiwan yn 2015. Cynyddodd cyfradd ailgylchu gwastraff diwydiannol a masnachol 9 pwynt canrannol o 58% i 67% rhwng 2012 a 2018.

Mae'r cynnydd hwn wedi cael ei gefnogi gan drefniadau casglu ailgylchu cadarn ledled Cymru, gyda set gyson o eitemau craidd yn cael eu casglu o bob cartref fel bwyd, plastigau, metelau a phapur. Ceir casgliad gwastraff bwyd wythnosol ar wahân o bob cartref. Ar hyn o bryd, mae pymtheg o'n dau Awdurdod Lleol ar hugain yn dilyn – neu wrthi'n gweithredu – yr un dull arfer gorau o ddarparu gwasanaeth casglu ar ochr y ffordd – Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd wedi gweld arloesi ledled Cymru wrth fynd i'r afael â chynhyrchion anodd eu hailgylchu gan gynnwys matresi a chlytiau. Ond gwyddom fod modd ailgylchu hanner y gwastraff gweddilliol o gartrefi sydd ar ôl yn ein bagiau duon, gyda hanner y gwastraff hwn yn wastraff bwyd[5]. Mae'n hawdd ailgylchu tri chwarter ein gwastraff masnachol a diwydiannol gweddilliol hefyd. Felly, mae angen i ni gasglu'r deunydd hwn a rhoi'r gorau i anfon gwastraff y gellir ei ailgylchu i safleoedd tirlenwi neu i gynhyrchu ynni o safleoedd gwastraff a'i ailgylchu yn lle hynny.

**Beth yw Fy Ailgylchu Cymru?**

Gwefan yw Fy Ailgylchu Cymru sy'n caniatáu i unrhyw un weld beth sy'n digwydd i'w hailgylchu ar ôl iddo gael ei gasglu gan eu Hawdurdod Lleol. Caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i rhedeg gan WRAP Cymru. Daw'r data o'r Llif Data Gwastraff, sef system adrodd ar-lein wedi ei dilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn rhan allweddol o'n hymrwymiad i dryloywder. https://myrecyclingwales.org.uk/cy


[3]Llywodraeth Cymru (2019) Rheoli gwastraff trefol Awdurdod Lleol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020, https://llyw.cymru/adroddiad-rheoli-gwastraff-trefol-awdurdod-lleol-ebrill-2019-i-fawrth-2020
[4]Eunomia a Swyddfa Amgylcheddol Ewrop (2017), Recycling – who really leads the world? https://www.eunomia.co.uk/reports-tools/recycling-who-really-leads-the-world-issue-2/
[5] WRAP (2016), National municipal waste compositional analysis in Wales; http://www.wrapcymru.org.uk/sites/files/wrap/Wales%20Municipal%20Waste%20Composition%202015-16%20FINAL.pdf

*Ein bwriad:*

Rydym am wneud Cymru'n genedl ddiwastraff erbyn 2050. Mae hyn yn golygu bod unrhyw ddeunyddiau sy'n cael eu taflu yn cael eu hailgylchu a'u hailddosbarthu yn economi Cymru heb bron ddim deunyddiau'n cael eu colli o'r system – i bob pwrpas, cyfradd gompostio, paratoi ar gyfer ei ailddefnyddio neu ailgylchu o 100% gan bob sector.

Ein targed sylfaenol nesaf ar gyfer ailgylchu gwastraff yw 70% erbyn 2025 ar gyfer gwastraff o gartrefi a busnesau masnachol a diwydiannol. Er mwyn bod ar y trywydd iawn i fod yn ddiwastraff erbyn 2050, byddwn yn ymrwymo i bennu targedau interim ar y llwybr tuag at fod yn ddiwastraff.

Mae angen i ni ymestyn yr amrywiaeth o ddeunyddiau o safon sy'n cael eu casglu ar wahân ym mhob man i'w hailgylchu. O ran gwastraff bwyd, rydym am gynyddu ymhellach y defnydd o'r seilwaith treulio anaerobig sydd gennym yn barod er mwyn sicrhau cynnydd mewn ailgylchu. Er mwyn annog busnesau a'r sector cyhoeddus i ailgylchu mwy o wastraff, bydd angen ailgylchu o safon ym mhob lleoliad annomestig, er mwyn i fusnesau wahanu eu gwastraff yn yr un modd ag y mae cartrefi eisoes yn ei wneud.



*Beth sydd angen i ni ei wneud?*

Yn ogystal â'n prif gamau gweithredu, byddwn hefyd yn:

- Datblygu seilwaith ychwanegol i gasglu ac ailgylchu deunyddiau o gartrefi nad ydynt yn cael eu hailgylchu'n eang ar hyn o bryd, fel cynhyrchion hylendid amsugnol, pren, ffilm blastig, plastig caled, cartonau, tecstilau, matresi, carpedi ac offer trydanol ac electronig gwastraff.

- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu targedau ailgylchu yn unol â'n llwybr at Gymru ddiwastraff gan gyrraedd 100% erbyn 2050.

- Cyflwyno rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i bob adeilad annomestig wahanu deunyddiau ailgylchu allweddol fel y mae cartrefi eisoes yn ei wneud. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r diwydiant gwastraff yng Nghymru i wella cysondeb ymhellach yn yr amrywiaeth o ddeunyddiau gwastraff a gesglir i'w hailgylchu.

- Adolygu a diweddaru ein Glasbrint Casgliadau a thrwy wneud hynny byddwn yn sicrhau bod cyfres ehangach o ddeunyddiau'n cael eu casglu, gan ganolbwyntio ar gasglu deunyddiau ailgylchadwy o safon a fydd hefyd yn gwneud Cymru yn fwy cadarn i newidiadau pellach yn y farchnad fyd-eang.

- Gwella'r modd y caiff deunydd pecynnu ei ailgylchu yn sylweddol, drwy gyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig (EPR) ar gyfer pecynnu i sicrhau bod cynhyrchwyr yn ysgwyddo costau diwedd oes llawn eu deunydd pecynnu a'u bod yn adrodd ar y targedau ailgylchu pecynnu a bennwyd ar gyfer Cymru, ac yn eu cyrraedd. Bydd hyn yn cynnwys labelu cyffredinol gorfodol i sicrhau ei bod yn hawdd i bobl ddeall beth gellir ac na ellir ei ailgylchu.

- Gwella'r cyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu cynwysyddion diodydd drwy gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS).

- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol ac eraill i adeiladu ar lwyddiant ymgyrchoedd ymwybyddiaeth fel 'Be Mighty, Recycle' i gefnogi dinasyddion ymhellach i ailgylchu gartref, wrth fynd o gwmpas eu pethau a thrwy ganolfannau ailgylchu lleol.

- Codi ymwybyddiaeth o'n dull gweithredu tryloyw drwy weithio i hyrwyddo a gwella gwefan[6] Fy Ailgylchu Cymru sy'n caniatáu i bobl olrhain eu hailgylchu lleol a gweld i ble aiff ein deunyddiau yn y pen draw.

- Sicrhau bod ein cymorth i fusnesau yn annog lefelau uchel o ailgylchu fel norm. Byddwn hefyd yn gweithio i gefnogi ein busnesau i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, o dynnu sylw at werth deunyddiau sy'n cael eu hystyried yn wastraff i annog dylunio gwell ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu.

[6] https://myrecyclingwales.org.uk/cy

## Buddsoddi mewn seilwaith

Mae buddsoddi yn ein seilwaith yn hanfodol os ydym am newid i fod yn genedl ddiwastraff, effeithlon o ran adnoddau, a charbon isel. Mae hyn yn golygu parhau i ddatblygu'r seilwaith sydd ei angen i leihau, ailddefnyddio, trwsio, pennu ail bwrpas, ailweithgynhyrchu, ailbeiriannu ac ailgylchu cynhyrchion a deunyddiau. Bod â'r capasiti prosesu ochr yn ochr â gwella gwasanaethau casglu yn barhaus er mwyn cael mwy o werth ychwanegol o adnodd gwerthfawr a gwneud economi Cymru yn fwy cadarn.

### *Y sefyllfa ar hyn o bryd:*

Mae Cymru eisoes yn gymdeithas sy'n ailgylchu, gyda seilwaith casglu o safon, ac enw da byd-eang am ein cyflawniadau yn y maes hwn.

Rydym eisoes wedi buddsoddi biliwn o bunnau mewn ailgylchu gwastraff cartrefi ledled y wlad i drawsnewid sut rydym yn delio â'n deunyddiau. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cefnogi'r cynnydd cyflym yn ein gwastraff trefol sy'n cael ei ailgylchu. Mae hefyd yn golygu bod gennym gasgliadau gwastraff bwyd o bob cartref, gyda'r seilwaith yn ei le i ddefnyddio bwyd gwastraff i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Fel gwlad gyfrifol, rydym wedi ymrwymo i ddelio'n effeithiol â'n gwastraff nad oes modd ei ailgylchu mewn ffordd sy'n ei atal rhag llygru'r amgylchedd neu ddod yn broblem mewn mannau eraill. Am y rheswm hwn, rydym wedi buddsoddi mewn seilwaith sy'n cynhyrchu trydan a gwres o'r deunydd hwn ac yn ei waredu'n ddiogel, i'r safonau amgylcheddol uchaf.

Gan fod trefniadau benthyca, llogi, prydlesu, ailddefnyddio, trwsio, ailbeiriannu ac ailweithgynhyrchu yn cynyddu, mae'n rhaid i'n seilwaith eu cefnogi drwy fentrau cymdeithasol, mentrau cymunedol a'r sector preifat. Rydym wedi gweld caffis ailddefnyddio a thrwsio, siopau diwastraff a di-blastig, storfeydd sgrap, 'llyfrgell pethau' (i'w benthyg), oergelloedd cymunedol a chynlluniau compostio cymunedol yn cael eu ehangu ledled y wlad. Rydym ni hefyd wedi gweld creu rhwydwaith o fannau ail-lenwi dŵr am ddim ledled Cymru yn ein cymunedau, ar hyd ein llwybr arfordirol ac yn ein safleoedd hanesyddol eiconig – gan gynnig dewis pwysig yn lle cynwysyddion diodydd untro.

Bydd canol ein trefi a'n cymunedau yn faes pwysig wrth i ni wella ar ôl y pandemig. Rydym eisoes wedi darparu £13 miliwn i gefnogi canolfannau trwsio ac ailddefnyddio mewn cymunedau a chanol trefi sy'n cefnogi prosiectau ledled Cymru. Byddwn yn gweld y rhain fel potensial i rannu ac adeiladu ar arferion da.

Rydym hefyd wedi dechrau cyflwyno Cerbydau Allyriadau Isel Iawn ar gyfer ailgylchu a chasglu gwastraff ynghyd â'r seilwaith i'w cefnogi.

### *Ein bwriad:*

Wrth i ni barhau i wella ein cyfraddau ailgylchu, bydd angen i ni roi'r seilwaith ar waith i'w brosesu a chefnogi sector gweithgynhyrchu Cymru i gynyddu ei ddefnydd o'r

deunydd wedi'i ailgylchu a gesglir. Mae gwastraff ac ailgylchu yn rhan allweddol o'n heconomi sylfaenol ac mae'n gyfrifol am swyddi a gweithgarwch ym mhob rhan o Gymru. Bydd cael y seilwaith iawn ar gyfer ein cymunedau yn golygu y gallwn sicrhau'r budd mwyaf posibl i'n heconomi o'n trefniadau ailgylchu o'r radd flaenaf. Rhaid i fuddsoddi mewn seilwaith hefyd helpu i fynd i'r afael â'r deunyddiau mwy anhylaw, defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a lleihau costau.

Er mwyn mynd y tu hwnt i ailgylchu, rydym yn awyddus i ddatblygu'r seilwaith i gyflymu'r twf mewn ailddefnyddio, trwsio ac ailweithgynhyrchu a chefnogi'r broses o ehangu llogi, prydlesu a benthyca. Bydd angen i ni hefyd sicrhau bod y seilwaith sydd gennym wedi'i ddatgarboneiddio a bod buddsoddiad yn y dyfodol yn cefnogi'r newid ehangach i economi carbon isel. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol fel rhan o'n dull Tîm Cymru o gyflawni sector cyhoeddus sero net erbyn 2030.

Wrth i'r gwaith trwsio, ailddefnyddio ac ailgylchu barhau i ehangu, rydym am sicrhau bod y capasiti sydd gennym i gynhyrchu ynni o wastraff yn cyfateb i'r capasiti sydd ei angen yn ystod y cyfnod newid i economi gylchol, gyda'r nod hirdymor o roi'r gorau i losgi gwastraff. Rydym hefyd am weld ein trefi ledled Cymru'n dangos dulliau cylchol drwy gael canolfannau trwsio ac ailddefnyddio yn ogystal â seilwaith pwysig arall gan gynnwys mannau ail-lenwi, siopau diwastraff a seilwaith gwyrdd cadarn.

**ASTUDIAETH ACHOS: Capital Valley Plastics**

Sefydlwyd Capital Valley Plastics yng Nghwmafan yn 1987, i gynhyrchu deunyddiau adeiladu hanfodol fel pilenni gwrth-leithder, cyrsiau atal lleithder, a rhwystrau nwy o un o'r defnyddiau mwyaf anodd eu hailgylchu, sef ffilm polythen. Diolch i fuddsoddiad o £117,000 gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan WRAP, maent yn cynyddu eu capasiti drwy brynu llinell ffilm blastig chwyddedig ychwanegol. Mae Capital Valley yn enghraifft wych o gwmni yn creu gwerth drwy ddefnyddio deunyddiau a fyddai fel arall yn cael eu gwastraffu i gynhyrchu cynhyrchion moesegol ac angenrheidiol a chreu swyddi yn yr ardal.

## *Beth sydd angen i ni ei wneud?*

Yn ogystal â'n prif gamau gweithredu, byddwn hefyd yn:

- Gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol i ddatblygu canolfannau 'eco-barc' rhanbarthol lle mae deunyddiau a gesglir yn cael eu hailgylchu, eu hailbrosesu, a'u hailweithgynhyrchu'n gynhyrchion newydd, gan arwain at werth ychwanegol uwch a manteisio ar y cyfleoedd economaidd yn sgil economi fwy cylchol.

- Buddsoddi mewn seilwaith trin, didoli ac ailbrosesu er mwyn mynd i'r afael â deunyddiau blaenoriaeth – gan gynnwys cynhyrchion hylendid amsugnol, offer electronig bach, pren, plastigau, tecstilau, matresi, carpedi a chartonau.

- Gweithio gyda'r sector preifat i wella'r capasiti prosesu yng Nghymru er mwyn gallu gwireddu potensial llawn ein hailgylchu o safon fyd-eang.

- Hyrwyddo datblygiad seilwaith cymunedol sy'n helpu dinasyddion i leihau gwastraff. Mae hyn yn cynnwys siopau di-blastig a diwastraff, ailddosbarthu bwyd dros ben, oergelloedd cymunedol, mannau ail-lenwi, siopau llogi cymunedol, llyfrgelloedd benthyca deunyddiau a mentrau cysylltiedig.

- Rhoi canol trefi wrth galon ein dull gweithredu drwy ddatblygu canolfannau yng nghanol trefi a fydd yn datblygu gweithgareddau trwsio ac ailddefnyddio mewn cymunedau ledled Cymru i gefnogi ein Rhaglen Trawsnewid Trefi a chynyddu nifer yr ymwelwyr.

- Cefnogi datblygu economaidd rhanbarthol drwy bontio i economi gylchol sy'n annog cadwyni cyflenwi byrrach a ffocws mwy lleol a rhanbarthol ar ddod o hyd i ddeunyddiau. Byddwn yn gweithio gyda Thasglu'r Cymoedd a Rhanbarthau'r Fargen Ddinesig i annog datblygiad seilwaith economi gylchol sy'n effeithlon o ran adnoddau.

- Adolygu'r seilwaith sydd ei angen arnom yn erbyn tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran y meintiau a'r mathau o wastraff a gynhyrchir, a thrwy adolygu'n strategol gadwyni cyflenwi a llifoedd angenrheidiol deunyddiau allweddol fel pren sydd eu hangen i gefnogi'r broses o bontio i economi gylchol a charbon isel.

- Drwy astudiaethau achos a'r arloesi sy'n digwydd ledled Cymru fel y rheini a gefnogir trwy ein Cronfa Economi Gylchol, byddwn yn hyrwyddo enghreifftiau o fusnesau sy'n defnyddio adnoddau ac yn gwireddu manteision economaidd hyn. Byddwn yn rhannu'r rhain â'r sector cyhoeddus i annog ffyrdd newydd o gaffael nwyddau fel prydlesu a phrynu cynhyrchion wedi'u hailgynhyrchu.

- Gwaith i ddatgarboneiddio'r gwasanaeth casglu ac ailgylchu gwastraff, drwy barhau i gyflwyno Cerbydau Allyriadau Isel Iawn ledled Cymru. Byddwn hefyd yn gwella'r seilwaith codi tâl yn strategol, a thrwy wneud hynny byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi datgarboneiddio cerbydau fflyd yn ehangach.

## Galluogi cymunedau a busnesau i weithredu

Ni all y Llywodraeth bontio i economi gylchol ar ei phen ei hun. Dyna pam ein bod am wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi unigolion, cymunedau, busnesau a'r sector cyhoeddus i sbarduno newid.  Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth anferth trwy harneisio egni busnesau sydd eisoes yn cymryd camau mawr i ddarparu cynhyrchion sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn lleihau gwastraff; cefnogi'r llu o fentrau cymunedol ledled Cymru; a'r dinasyddion, modelau rôl, hyrwyddwyr ac entrepreneuriaid 'arbed adnoddau' sy'n gweithredu.

### *Y sefyllfa ar hyn o bryd:*

Mae ein cymunedau yn arwain o'r blaen o ran creu newid lleol a datblygu mentrau mwy cynaliadwy. Mae mentrau fel ardaloedd di-blastig a diwastraff yn ysbrydoli pawb i weithredu i leihau gwastraff, boed yn hen neu'n ifanc, yn grwpiau cymunedol neu'n fusnesau lleol.  Mae nifer o Awdurdod Lleol hefyd wedi ymrwymo i ddyfodol un blaned neu ddyfodol diwastraff. Mae gan Gymru hanes balch o gefnogi cynlluniau sy'n cael eu harwain gan y gymuned yn y maes hwn ac rydym wedi'u helpu iddynt allu ffynnu.

Wrth helpu i fynd i'r afael â gwastraff bwyd, rydym wedi cefnogi mentrau fel FareShare Cymru, sydd wedi darparu dros wyth miliwn o brydau i bobl agored i niwed ers 2011 drwy ailddosbarthu bwyd dros ben. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi helpu i ehangu FareShare Cymru i rannau eraill o Gymru gan ddarparu bwyd i'r rheini oedd mewn angen yn ystod y pandemig.

Mae Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ariannu nifer o brosiectau, gan gynnwys nifer sy'n mynd i'r afael ag ailddefnyddio ac ailgylchu. Rydym hefyd wedi cefnogi Caffis Trwsio Cymru i barhau â'u gwaith i ddod â chymunedau ledled y wlad ynghyd i rannu'r sgiliau trwsio ac ailddefnyddio, a thrwy'r Gronfa Economi Gylchol rydym yn cefnogi dros 30 o brosiectau trwsio ac ailddefnyddio ledled Cymru.  Rydym hefyd wedi ymrwymo i fod y Genedl Ail-lenwi gyntaf yn y Byd ac wedi hwyluso cyflwyno mannau ail-lenwi dŵr yn eang ledled Cymru, gan gydweithio â busnesau a chreu mannau ail-lenwi mewn lleoliadau strategol.

Mae ein prifysgolion a'n colegau hefyd yn rhannu arbenigedd ac yn sbarduno arloesi a hoffem weld hyn yn cael ei ehangu. Sefydlwyd y fenter 'RemakerSpace Centre' newydd yn Sefydliad y PARC ym Mhrifysgol Caerdydd i gefnogi a hyrwyddo ailweithgynhyrchu a'r economi gylchol yng Nghymru drwy roi'r sgiliau, yr offer a'r ymwybyddiaeth i fusnesau ailfeddwl am ddyluniad cynhyrchion.

Mae gennym ni a phrifysgolion ledled Cymru bartneriaeth sydd wedi hen ennill ei phlwyf gyda CERIG (Grŵp Ymchwil ac Arloesi'r Economi Gylchol) sy'n dod â'n sefydliadau academaidd at ei gilydd ac sy'n creu cyfleoedd i gydweithio ac yn cefnogi busnesau Cymru i arloesi mewn economi gylchol.

Rydym hefyd wedi cefnogi prosiect 'Cymunedau Arloesi'r Economi Gylchol' a gaiff ei ariannu gan yr UE o dan arweiniad Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, sy'n dod ag arweinwyr y sector cyhoeddus a mentrau cymdeithasol ynghyd i ddod o hyd i atebion economi gylchol i heriau sefydliadol. Mae hyn yn adeiladu ar y gwersi rydym wedi'u dysgu drwy gyfranogiad Cymru fel partner ym mhrosiect yr

Economi Gylchol ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig (CESME) a ariennir gan Interreg Ewrop, a oedd yn cynnwys chwe rhanbarth yn Ewrop.

Rydym yn helpu busnesau gyda chyngor trwy amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Busnes Cymru sydd â chynghorwyr cynaliadwyedd penodol a WRAP Cymru sy'n darparu gwybodaeth a chymorth ar ddefnyddio adnoddau'n effeithiol. Hefyd, rydym wedi sefydlu Cronfa Economi Gylchol ar gyfer busnesau i'w helpu i fuddsoddi mewn defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu mewn cynnyrch.

## *Ein bwriad:*

Rydym yn awyddus i adeiladu ar y momentwm aruthrol sy'n bodoli ledled Cymru, ac annog a hwyluso mwy o gymunedau a busnesau i gymryd camau cadarnhaol i atal gwastraff ac annog ailddefnyddio, ailgylchu a defnyddio adnoddau'n effeithiol. Rydym ni hefyd eisiau manteisio ar angerdd a brwdfrydedd ein pobl ifanc, gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael i ni, fel ein rhaglenni addysg amgylcheddol, i sicrhau ein bod yn cynnwys plant a phobl ifanc yn gynnar yn ein ffordd o feddwl yn y dyfodol ac yn dylanwadu ar newid ymddygiad cadarnhaol a meddwl creadigol ymysg ein cenhedlaeth nesaf.

Byddwn yn ceisio dod â chymunedau at ei gilydd i ddatblygu cynlluniau sy'n berthnasol i'w hardal a'u hanghenion penodol. Rydym am i bob cymuned gael mynediad parod at gyfleusterau ailddefnyddio a thrwsio ochr yn ochr â chynnig ailgylchu ehangach. Rydym ni am gefnogi mentrau lleol newydd fel canolfannau gweithio o bell sy'n helpu i leihau'r amser, y gost a'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chymudo a gwneud yn siŵr eu bod yn defnyddio adnoddau mor effeithlon â phosibl, er enghraifft drwy ailddefnyddio ac ailweithgynhyrchu dodrefn swyddfa a gorchuddion llawr.

Rydym am i'n busnesau a'n mentrau fod ar flaen y gad o ran newid a'u cefnogi i arbed a gwneud arian o'r economi gylchol sy'n tyfu a dod yn fwy gwydn drwy gwtogi cadwyni cyflenwi. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddatgloi cyfleoedd economaidd newydd a ddaw yn sgil tarfu ar y sectorau presennol a datblygu marchnadoedd newydd a helpu'n busnesau i gystadlu'n fwy effeithiol mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio.

Bydd cyflawni ein nodau yn gofyn am newid sylweddol yn y ffordd rydym yn defnyddio adnoddau ar draws ein heconomi ac yn ein bywydau bob dydd. Rydym yn gymdeithas sy'n defnyddio llawer ac mae'r cynhyrchion rydym yn eu defnyddio yn aml yn cael eu defnyddio unwaith ac yn dod yn uniongyrchol o adnoddau naturiol crai.

**ASTUDIAETH ACHOS: Riversimple**

Mae Riversimple yn gwmni sy'n gweithio i gael gwared ar effaith trafnidiaeth bersonol ar yr amgylchedd. Gyda chymorth Grant gwerth £2 filiwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu yn 2015, maent wedi dylunio ac adeiladu car cell hydrogen hanner pwysau cerbyd confensiynol. Yn fwy rhyfeddol ac wrth gefnogi'r newid i'r economi gylchol, nid gwerthu ceir yw eu cynllun busnes mewn gwirionedd, ond darparu gwasanaeth cludiant. Bydd yr holl gostau cynnal a chadw, tanwydd ac yswiriant yn cael eu cynnwys yn y ffi sefydlog misol. Mae hyn yn bersbectif cwbl newydd i'r diwydiant ceir a fyddai'n lleihau ein dibyniaeth ar adnoddau cyfyngedig. Nod Riversimple yw creu 180-220 o swyddi medrus yn ystod y blynyddoedd nesaf.

*Beth sydd angen i ni ei wneud?*

Yn ogystal â'n prif gamau gweithredu, byddwn hefyd yn:

- Cefnogi canol trefi i fod yn fwy 'cylchol' fel rhan o'r gweithredu traws-lywodraethol ar Drawsnewid Trefi drwy ddatblygu canolfannau trwsio ac ailddefnyddio lleol a chynlluniau eraill fel mannau ail-lenwi a chynigion manwerthu diwastraff.

- Rhoi cyngor a chefnogaeth i fusnesau drwy Busnes Cymru ac i gefnogi gweithredu trwy'n Contract Economaidd er mwyn i gwmnïau yng Nghymru allu manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o economi fwy cylchol a bod yn fwy cadarn. Byddwn yn gweithio gyda chyrff proffesiynol, masnach a sectorau perthnasol sy'n weithredol yng Nghymru, i gefnogi eu haelodau i fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau. Byddwn hefyd yn ehangu ein cymorth arloesi ar ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithiol ac yn cynyddu nifer y busnesau sy'n ymrwymo i Addewid Twf Gwyrdd Busnes Cymru.

- Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr, ee drwy labelu gwell, er mwyn galluogi pobl i wneud dewisiadau clir i gefnogi cynhyrchion mwy cynaliadwy ac wedi'u hailgylchu.

- Mae angen i blant a phobl ifanc chwarae rhan amlwg wrth lywio ein heconomi gylchol yn ei blaen. Mae pobl ifanc wedi bod yn ganolog a byddant yn parhau i fod yn ganolog i'r gweithredu a'r atebion sydd eu hangen. Byddwn yn parhau i gefnogi ein cenhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol drwy addysg, hyfforddiant a'n rhaglenni amgylcheddol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newid yn yr hinsawdd, allyriadau, defnyddio ynni a chynhyrchu gwastraff.

- Cynorthwyo gweithgynhyrchwyr, yn enwedig yn y sector bwyd a diod, i fod yn barod ar gyfer dyfodol newydd drwy gynllunio ar gyfer y diwygiadau arfaethedig, er enghraifft i becynnu. Bydd y gefnogaeth hon yn pwysleisio'r cyfleoedd sy'n deillio o wireddu manteision dewisiadau amgen mwy cynaliadwy ac effeithlon o ran adnoddau.

- Cefnogi busnesau i fod yn barod ar gyfer y Dreth Pecynnu Plastig a pharhau i gefnogi busnesau i ddefnyddio mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu mewn cynhyrchion.

- Cefnogi datblygiad sgiliau gwyrdd yn ein gweithlu, gan gynnwys defnyddio adnoddau'r economi ddigidol yn fwy effeithiol, modelau busnes economi gylchol, coedwigaeth a phren, trwsio, ailweithgynhyrchu a defnyddio deunyddiau cyfansawdd.

- Defnyddio ein Cronfa Economi Gylchol, parhau i fuddsoddi mewn mentrau cymunedol sy'n annog rhannu, ailddosbarthu, trwsio, ailddefnyddio ac ailweithgynhyrchu a chefnogi'r mentrau cymunedol hynny.

- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Ganolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewid Cymdeithasol (CAST) i ymchwilio a datblygu'r trawsnewidiadau cymdeithasol sydd eu hangen i greu cymdeithas carbon isel, gynaliadwy sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

## Cysoni dulliau ysgogi'r Llywodraeth

Drwy gysoni dulliau ysgogi'r Llywodraeth i'r eithaf fel cyllid, deddfwriaeth, trethi a chaffael, rydym yn gweithio i gysoni ein camau gweithredu i sicrhau'r budd mwyaf. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod er mwyn cyflawni'n nodau bod angen i bob rhan o'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru weithredu i gefnogi'r newid tuag at economi fwy cylchol.

### *Y sefyllfa ar hyn o bryd:*

Ers cyhoeddi Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn 2010, mae Cymru wedi ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am ragor o feysydd polisi sy'n berthnasol i'r economi gylchol ac rydym yn gallu defnyddio set ehangach o ddulliau ysgogi i greu newid. O ganlyniad, cafwyd rhai llwyddiannau nodedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n adlewyrchu ein penderfyniad ein hunain i weithredu. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio ein pwerau cyfreithiol i gyflwyno tâl am fagiau siopa untro a gwahardd microbelenni. Ni hefyd yw'r unig wlad yn y DU i bennu targedau ailgylchu gofynnol statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Hyd yma, rydym wedi buddsoddi dros biliwn o bunnoedd mewn seilwaith gwastraff ac ailgylchu a threfniadau casglu i gefnogi ein gweledigaeth dim gwastraff ac rydym wedi defnyddio ein Cronfeydd Economi Gylchol i ysgogi arloesi ym mhob rhan o Gymru. Mae'r gronfa'n helpu busnesau i ddefnyddio mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, gan helpu cyrff cyhoeddus i bontio i economi fwy cylchol a helpu cymunedau i weithredu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio am gyn hired â phosibl.

Rydym hefyd wedi cael rhagor o gyfrifoldebau ariannol ers cyhoeddi'r strategaeth ddiwethaf, gan gynnwys rheoli rhai trethi sy'n cynnwys y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Rydym wedi defnyddio rhywfaint o'r incwm a godwyd o'r dreth hon i ariannu prosiectau amgylcheddol fel caffis trwsio.

Rydym hefyd wedi gweithio i gysoni ein dulliau polisi ar draws Llywodraeth Cymru gan sicrhau bod yr economi gylchol yn rhan allweddol o strategaethau a chynlluniau mawr. Mae defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a'r economi gylchol yn elfennau craidd o *Ail-greu ar ôl Covid-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau* sy'n adlewyrchu pwysigrwydd hyn i'n hadferiad. Mae'n amlwg iawn mewn amrywiaeth o ddulliau a rhaglenni polisi o'n Polisi Adnoddau Naturiol i'n dulliau gweithredu economaidd, gan gynnwys yr economi sylfaenol. Mae hyn yn cydnabod gallu economi fwy cylchol i fanteisio ar adnoddau lleol er budd yr economi leol ac mae ailddefnyddio, ailweithgynhyrchu, ailbeiriannu ac ailgylchu yn elfennau pwysig. Mae'r prosiectau Swyddi Gwell yn Nes at Adref sy'n ymwneud ag ailgylchu papur a phaent wedi'i ailbeiriannu yn enghreifftiau allweddol o gefnogi swyddi lleol a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio am gyn hired â phosibl.

Mae nifer o sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru wedi dangos ymddygiad cylchol ac wedi cael cydnabyddiaeth eang. Mae ailwampio swyddfeydd yn enghraifft ddefnyddiol yma, fel y broses gaffael gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a enillodd wobrau yn rhyngwladol, o ailddefnyddio ac ailweithgynhyrchu dodrefn swyddfa a charpedi ar gyfer ei swyddfa newydd yng Nghaerdydd. Mae Cyngor Abertawe a Heddlu Gogledd

Cymru wedi ymgymryd â mentrau tebyg, ac yn fwy diweddar, Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Rhondda Cynon Taf.

## *Ein bwriad:*

Rydym am fanteisio i'r eithaf ar ddulliau ysgogi'r llywodraeth o gefnogi a sbarduno cynnydd ar ein taith i sicrhau economi gylchol. Wrth wneud hynny, rydym am sicrhau'r budd mwyaf i Gymru, nid yn unig yn amgylcheddol, ond yn economaidd ac yn gymdeithasol, fel ei bod yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn ogystal â bod wrth wraidd adferiad gwyrdd.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth, byddwn yn gweithio i gysoni ein dulliau ac yn gwneud y defnydd gorau o'n pwerau. O ran deddfwriaeth, bydd hyn yn golygu cyflwyno deddfwriaeth i gyflawni cynlluniau allweddol. O ran cyllid, rydym am fuddsoddi yn y seilwaith a fydd yn ein cefnogi i bontio i economi gylchol gan barhau i helpu i gyflawni prosiectau arloesol, graddadwy sy'n atal gwastraff ac yn cydnabod bod deunyddiau dros ben yn adnodd. Rydym ni am ddefnyddio mwy ar ein pwerau ariannol i wario mewn ffordd sy'n cefnogi economi gylchol fwy cadarn.

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu ein bod am wneud yn siŵr bod yr adnoddau rydym yn eu defnyddio fel Llywodraeth ac fel sector cyhoeddus yn ein cefnogi i symud tuag at economi gylchol. Drwy wneud hynny, rydym am lywio arferion da yn ogystal â sicrhau bod yr arferion da hynny yn dod yn norm fel eu bod, wrth ystyried gwerth am arian, yn adlewyrchu costau oes gyfan a'r manteision sy'n deillio o'r deunyddiau a ddefnyddir, eu heffaith o ran carbon a'r cadwyni cyflenwi sy'n gysylltiedig. Rydym am i'r broses o gaffael cynnwys wedi'i ailddefnyddio, ei ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu ac eitemau o ffynonellau cynaliadwy fod yn ddull diofyn, neu'r 'norm' i fusnesau.

## *Beth sydd angen i ni ei wneud?*

Yn ogystal â'n prif gamau gweithredu, byddwn hefyd yn:

- Gosod moratoriwm ar unrhyw ddatblygiadau ynni-o-wastraff mawr wrth i'r cynnydd mewn ailgylchu a'r gostyngiad mewn gwastraff rydym eisoes wedi'u gweld yn golygu na fydd angen unrhyw seilwaith ynni-o-wastraff newydd mawr arnom i ddelio â gweddill y gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru. Byddwn yn gweithio hefyd â Llywodraeth y DU i archwilio a fyddai cyflwyno treth llosgi yn ddymunol fel dull o gefnogi cynnydd wrth bontio i economi gylchol.

- Deddfu i sicrhau bod deunyddiau ailgylchu allweddol sydd wedi'u gwahanu yn cael eu gwahardd rhag mynd i safleoedd tirlenwi neu adfer ynni.

- Blaenoriaethu prynu cynhyrchion sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon gydag ôl troed carbon isel. Byddwn yn defnyddio llai o ddeunydd crai ac yn blaenoriaethu defnyddio, er enghraifft, pren a deunyddiau sydd â llawer o gynnwys wedi'i ailgylchu yn ogystal â blaenoriaethu eitemau wedi'u hailddefnyddio a'u hailgynhyrchu yn y nwyddau y mae'r sector cyhoeddus yn eu prynu.

- Gweithio i roi cymorth ar gyfer datblygu addysg a sgiliau sy'n ymgorffori sgiliau cylchol craidd fel effeithlonrwydd adnoddau a dylunio ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion, hyfforddiant, cymwysterau a phrentisiaethau.

- Gosod esiampl o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn caffael nwyddau a chynnyrch.

- Cefnogi'r sector cyhoeddus ac yn annog busnesau i flaenoriaethu masnach gynaliadwy ac olrhain cynhyrchion i weithio i sicrhau ein bod yn osgoi caffael deunyddiau sy'n effeithio'n andwyol ar hawliau dynol neu'r amgylchedd mewn gwledydd eraill.

- Adeiladu ar ein llwyddiant o ran ailgylchu i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â deunyddiau anodd eu hailgylchu. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU i ddatblygu Cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig ar gyfer plastigau a chyflwyno'r ddeddfwriaeth i helpu i'w roi ar waith. Byddwn hefyd yn edrych ar y potensial i ddefnyddio EPR ar gyfer cynhyrchion ychwanegol sy'n anodd eu hailgylchu fel teiars, tecstilau a gwastraff swmpus (er enghraifft dodrefn, matresi a charpedi) a chynhyrchion a ddefnyddir yn y sector adeiladu.

- Cyflwyno system olrhain gwastraff electronig orfodol i olrhain ble mae gwastraff yn mynd a darparu gwybodaeth flynyddol am wastraff diwydiannol, masnachol, adeiladu a dymchwel a gynhyrchir yng Nghymru, a thrwy hynny helpu i fynd i'r afael â throseddau gwastraff yn fwy effeithiol.

- Sicrhau bod gwastraff peryglus a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei leihau a'i reoli'n ddiogel drwy ein rhaglenni cymorth busnes a gwaith rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru, gan weithio ar y cyd â Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

- Mynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon drwy lunio a gweithredu Cynllun Atal Sbwriel ar gyfer Cymru, a pharhau i gyflawni ein Strategaeth Tipio Anghyfreithlon - 'Cymru Ddi-Dipio'.

- Cyflwyno gwaharddiadau a chyfyngu ar werthu eitemau plastig untro sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel, fel cyllyll a ffyrc, gwellt, ffyn cotwm a ffyn balŵn.

- Adolygu ein ffi arloesol ar fagiau siopa yng Nghymru a gwerthuso a oes modd cymryd camau pellach ar yr eitemau hyn.

- Datblygu opsiynau ar gyfer treth neu godi tâl ar gwpanau plastig untro a chynwysyddion bwyd yng Nghymru.

- Cymryd camau i gael gwared ar eitemau untro diangen o ddigwyddiadau a gweithgareddau arddangos eraill yng Nghymru. Yn y lle cyntaf, byddwn yn gwneud hynny drwy annog pobl i wahardd cwpanau untro o lawer o stadia yng Nghymru.

- Gweithio gyda strwythurau allweddol i geisio gwreiddio dulliau economi gylchol mewn ardaloedd lleol a rhanbarthol ledled Cymru. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, strwythurau economaidd rhanbarthol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i ganfod cyfleoedd a gweithredu arnynt.

## Sut gallwch chi gymryd rhan

Mae’r Strategaeth hon wedi cael ei datblygu gyda dinasyddion a rhanddeiliaid yn ganolog iddi. Cyn y cyfnod clo cyntaf, fe wnaethom gynnal nifer o ddigwyddiadau mewn cymunedau ac ers hynny, rydym wedi cynnal gweminarau ar-lein drwy gydol 2020. Mae’r holl ddigwyddiadau hyn wedi golygu ein bod wedi ymgysylltu’n uniongyrchol ag oddeutu 2,000 o bobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt, sydd wedi rhannu eu syniadau a’u safbwyntiau ar weithredu yn y dyfodol.

Rydym ni am barhau â’r ymgysylltiad hwn a pharhau i ymgysylltu drwy fforymau a sianeli gwybodaeth presennol a hefyd drwy ddulliau digidol a dulliau eraill sy’n ein galluogi ni i gysylltu â chi mewn lleoliadau ac ar adegau cyfleus.

Byddwn hefyd yn monitro ac yn asesu ein cynnydd ac yn rhannu hyn â chi.

Bydd hon yn strategaeth fyw. Mae ein nodau’n glir ac yn hirsefydlog – symud i economi fwy cylchol i gyflawni allyriadau carbon sero net ac i fod yn ddiwastraff a defnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau’r Ddaear. Fodd bynnag, bydd angen diweddaru ein camau gweithredu wrth i amgylchiadau newid ac wrth i ragor o gynnydd gael ei wneud. Er enghraifft, mae rhai o’n gweithredoedd wedi’u cynllunio i dreialu gweithgareddau a dulliau a byddwn yn rhannu’r hyn rydym wedi’i ddysgu ac yn rhoi cyfle i chi roi eich barn i ni.

Mae ymgysylltu a chydweithio wedi bod yn ganolog i ddatblygu’r ddogfen hon. Byddwn yn ymrwymo i barhau i gynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid wrth ei chyflwyno.

**Dangosyddion**


Mae cyfres o ddangosyddion yn cael eu datblygu i olrhain y daith tuag at fyw fel un blaned, ddiwastraff, carbon sero net a'r symud tuag at economi fwy cylchol. Mae'r dangosyddion wedi'u cynllunio i ddangos cysylltiad gwirioneddol rhwng polisi, dangosyddion a chanlyniadau a byddant yn arwain naratif tuag at gynnydd.

Crynhoir y dangosyddion allweddol yn y diagram isod. Dangosir set lawn o'r dangosyddion a'u cysylltiad â'r polisi yn yr adroddiad ar Ddangosyddion Ailgylchu a Mwy.


Economi Gylchol

# Dangosyddion: Newid Cymru i fod yn Economi Gylchol


**Mae agenda'r Llywodraeth ar gyfer gwlad decach, fwy gwyrdd a ffyniannus wrth wraidd y strategaeth Mwy Nag Ailgylchu. Mae'r dangosyddion hyn yn adnodd sy'n defnyddio data ac ystadegau fel tystiolaeth i lywio, arwain polisïau a mesur perfformiadau allweddol.**





***Siart 1. Rheoli Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol (tunelli) a chyfran y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi, i'w losgi gydag adfer ynni ac a ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd/gompostiwyd (%)***
*Ffynhonnell - WasteDataFlow*





***Siart 2. Gwastraff Blynyddol gan Gartrefi***
*Ffynhonnell – WasteDataFlow*




***Siart 3. Gwastraff Blynyddol gan y Sector Diwydiannol a Masnachol*** *Ffynhonnell – NRW*




***Siart 4. Mynegai Carbon Ailgylchu (yn cynnwys Awdurdodau Lleol)***
*Ffynhonnell - Eunomia*




***Siart 5. Cyfradd AilgylchuSource***
*Ffynhonnell – WasteDataFlow*

## Pwyntiau Allweddol

- **Byddwn yn gweithio i gyflawni'r cyfraddau ailgylchu gwastraff cartref gorau yn y byd, gan weithio gyda llywodraeth leol, a thrawsnewid y broses o ailgylchu gwastraff masnachol, diwydiannol ac adeiladu.**
- **Dangosir crynodeb o'r data/tueddiadau.**
- **Ein targedau dros dro ar gyfer ailgylchu gwastraff yw 70% erbyn 2025 ar gyfer gwastraff o gartrefi, busnesau masnachol a diwydiannol ac ailgylchu 90% o wastraff adeiladu a dymchwel erbyn 2020.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government